# Caniatâd, Ffurflenni a GDPR
# Canllaw Arfer Gorau

## Beth sydd wedi newid?

Mae'r safonau ar gyfer cydsyniad cyfreithlon wedi newid dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Nod y Rheoliad yw rhoi rheolaeth i ddinasyddion dros eu data personol a symleiddio'r gofynion o fewn yr UE.

Rhaid casglu data personol at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon mewn perthynas â'r diben y'i prosesir ar ei gyfer.

Os ydych yn dibynnu ar ganiatâd, mae'n rhaid iddo gael ei roi'n rhydd, yn benodol, yn wybodus ac yn ddiamwys. Rhaid i chi roi gwybod i unigolion yn glir sut y caiff eu gwybodaeth ei phrosesu os ydynt yn cydsynio i ddarparu neu danysgrifio i wasanaeth, er enghraifft gwasanaeth atgoffa testun yr ysgol.

## Pryd y dylid ceisio cydsyniad

Dim ond os gallwch gynnig dewis a rheolaeth wirioneddol dros y ffordd y defnyddir ei ddata y dylid ceisio caniatâd i ddefnyddio data personol unigolyn. Er enghraifft, gofyn am ganiatâd i dynnu ffotograff o blant ar wefan yr ysgol. Gall rhieni wrthod caniatâd yn yr achos hwn felly byddai angen caniatâd.

Fodd bynnag, ceir adegau pan na fydd caniatâd yn briodol e.e. rhannu gwybodaeth gyda'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar yr ysgol i rannu'r wybodaeth hon, felly ni fyddai angen caniatâd gan rieni neu warcheidwaid. Enghraifft arall fyddai pe bai plentyn yn mynd yn sâl yn yr ysgol byddai o fudd i chi gysylltu â rhiant/gwarcheidwad y plentyn heb gael caniatâd yr unigolyn hwnnw'n gyntaf.

## Pam mae hyn yn bwysig?

Rhaid i ysgolion ennill yr hawl i gysylltu â rhieni. Gall dibynnu ar ganiatâd amhriodol neu annilys adael eich ysgol yn agored i gamau gorfodi.

Gall methu â chydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data arwain at gamau gorfodi a dirwy o hyd at £17,000,000.

# Caniatâd, Ffurflenni a GDPR
# Canllaw Arfer Gorau

## Syniadau da ar gyfer cydsynio cydymffurfiol

1. Rhaid i'r caniatâd fod yn eglur, diamwys a bod angen op cadarnhaol clir ar waith, megis blwch ticio gwag a/neu ychwanegu llofnod.

2. Rhaid i'r caniatâd fod ar wahân i delerau ac amodau eraill.  Rhaid iddo beidio â bod yn rhag-amod i ymuno â gwasanaeth

3. Ni ellir defnyddio blychau optio i mewn sydd wedi'u ticio o flaen llaw.

4. Rhaid i'r caniatâd fod yn benodol ac yn wybodus

5. Dylai cydsyniad fod fesul dipyn, gan roi dewisiadau ar gydsynio i wahanol ddibenion a gwahanol fathau o brosesu.

5. Rhaid rhoi gwybod i unigolion am eu hawl i dynnu eu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg a chael gwybod sut i wneud hynny. Dylai hyn fod yn syml, er enghraifft 'Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ... '

Mae angen i ysgolion ddweud wrth ddisgyblion/rhieni am eu hawl i dynnu eu caniatâd yn ôl a sut i wneud hynny.

## Beth sydd angen i ysgolion ei wneud?

1. Penderfynwch a oes angen i chi ddibynnu ar gydsyniad i brosesu data personol neu a oes sail gyfreithlon dros wneud hynny. Cyfeiriwch at ddogfen gyfarwyddyd ar Sail Gyfreithlon.
2. Gwnewch y newidiadau angenrheidiol i'ch ffurflenni caniatâd fel eu bod yn cydymffurfio â rheolau'r Ddeddf Diogelu Data.
3. Edrych yn ôl ar y dulliau rydych wedi'u defnyddio i gael caniatâd ar gyfer tanysgrifiadau neu farchnata a chysylltu ag unigolion gan ofyn iddynt am ganiatâd i barhau i brosesu eu gwybodaeth.  Bydd hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth.




